**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cyngor

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 1 Gorffennaf 2021 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | J E Burtonshaw |
| M C Child | J P Curtice | N J Davies |
| A M Day | P Downing | C R Doyle |
| M Durke | V M Evans | W Evans |
| E W Fitzgerald | R Francis-Davies | S J Gallagher |
| L S Gibbard | F M Gordon | K M Griffiths |
| J A Hale | D W Helliwell | T J Hennegan |
| C A Holley | P R Hood-Williams | B Hopkins |
| D H Hopkins | L James | O G James |
| Y V Jardine | J W Jones | L R Jones |
| M H Jones | M Jones | P K Jones |
| S M Jones | E J King | E T Kirchner |
| M A Langstone | H Lawson | A S Lewis |
| M B Lewis | W G Lewis | C E Lloyd |
| P Lloyd | I E Mann | P M Matthews |
| P N May | H M Morris | C L Philpott |
| S Pritchard | A Pugh | J A Raynor |
| K M Roberts | B J Rowlands | R V Smith |
| D G Sullivan | G J Tanner | M Thomas |
| L G Thomas | W G Thomas | L J Tyler-Lloyd |
| G D Walker | L V Walton | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): C R Evans, R D Lewis, D Phillips, C Richards, M Sherwood, P B Smith, A H Stevens a/ac R C Stewart

---

## 10. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ar eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan.
Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr J W Jones ac M H Jones gysylltiad personol â Chofnod 19 "Diwygiad i benodi Cadetiaid yr Arglwydd Faer".

## 11. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod blynyddol y cyngor a gynhaliwyd ar 20 Mai 2021.

## 12. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 13. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### 1) Cydymdeimladau

**Y Cyn-gynghorydd T P C (Patrick Morgan)**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar cyn-gynghorydd Dinas Abertawe, T P C Morgan (Patrick), a gynrychiolodd Ward Sgeti rhwng 1984–1988.

Cyfeiriodd hefyd gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar Bethan Caton, gwraig Martin, cyn-Aelod Seneddol dros Gŵyr a Chynghorydd Dinas a fu farw'n ddiweddar.

Eisteddodd pawb yn dawel fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

### 2) Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol at Ddinasyddion Abertawe a dderbyniodd ddyfarniadau yn rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn ddiweddar.

Ryan Jones MBE - am ei wasanaethau i'r undeb rygbi ac am wasanaethau codi arian elusennol yng Nghymru.

Isobel Marie-Ann Everett MBE - am ei gwasanaeth cyhoeddus ac ar gyfer datblygiad arweinydd y dyfodol (Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiweddar)

Mark Andrew Jones MBE - am ei wasanaethau i Wyddoniaeth, Technoleg a Mathemateg (Gwasanaethau Hacio Moesegol y DVLA)

Dr Elizabeth Alexandra Davies BEM - am ei gwasanaethau i'r GIG a chleifion hŷn yn ystod pandemig COVID-19 (Geriatregydd Ymgynghorol yn Ysbyty Treforys)

David Jones Lloyd BEM - am ei wasanaethau gwirfoddol (sylfaenydd Second Chance)

## 14. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau.

## 15. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Gofynnwyd dau gwestiwn gan y cyhoedd.

Daeth y cyntaf gan Jason Williams mewn perthynas â Chofnod 21 “Cwestiynau'r Cynghorwyr - Cwestiwn 6 (Parc Sglefrio).

Roedd yr ail gwestiwn yn un ysgrifenedig gan Andrew Crowley nad oedd yn gallu bod yn bresennol mewn perthynas â Chofnod 21 “Cwestiynau’r Cynghorwyr’ - Cwestiwn 9 (Pont Pentre Road).

Ymatebwyd i'r cwestiynau gan Aelodau perthnasol y Cabinet.

## 16. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2020/21.

Cyflwynodd Paula O’Connor, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr adroddiad a ddarparodd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2020/21.

**Penderfynwyd** nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2020/21.

## 17. Cynllun Rheoli Asedau 2021-25.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyo’r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer y cyfnod 2021-2025.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer 2021-2025.

## 18. Aelodaeth Pwyllgorau.

Cyflwynodd Aelod yr Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y cyngor ar gyfer yr enwebiadau/diwygiadau i amrywiol Gyrff y Cyngor.

Dywedodd fod yr Arweinydd wedi gwneud y diwygiad canlynol i'r Corff Allanol:

Fforwm Partneriaeth - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe
Wedi tynnu enwau'r Cynghorwyr Jen A Raynor, Clive E Lloyd a Sam Prichard
Wedi ychwanegu enwau'r Cynghorwyr Robert V Smith, Louise S Gibbard ac Alyson Pugh

**Penderfynwyd** y dylid diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Tynnu enw'r Cynghorydd Hannah Lawson
Ychwanegu enw'r Cynghorydd Oliver G James

Pwyllgor y Rhaglen Graffu
Tynnu enw'r Cynghorydd Jen A Raynor
Ychwanegu enw'r Cynghorydd Hannah Lawson

PDP yr Economi ac Isadeiledd
Tynnu enw'r Cynghorydd Matthew Jones
Ychwanegu enw'r Cynghorydd Peter K Jones

PDP Pobl
Tynnu enw'r Cynghorydd T Mike White
Ychwanegu enw'r Cynghorydd Matthew Jones

PDP Lleihau Tlodi
Tynnu swyddi gwag y Ceidwadwyr
Ychwanegu enwau'r Cynghorwyr David W Helliwell a Lyndon R Jones

PDP Adferiad a Chenedlaethau'r Dyfodol
Tynnu enw'r Cynghorydd Hannah Lawson
Ychwanegu enw'r Cynghorydd T Mike White

Pwyllgor Apeliadau Disgyblu Prif Swyddogion
Tynnu enw'r Cynghorydd Will G Thomas
Ychwanegu Sedd Wag y Ceidwadwyr

## 19. Diwygiad i benodi Cadetiaid yr Arglwydd Faer

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflwyno a Pherfformiad adroddiad gwybodaeth a oedd yn amlinellu ac yn cynghori’r cyngor am y weithdrefn ddiwygiedig a fydd yn golygu y bydd tri chadét yr Arglwydd Faer yn cael eu penodi i gynrychioli pob un o Wasanaethau Cadetiaid y Lluoedd Arfog ar gyfer pob blwyddyn ddinesig.

## 20. Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu adroddiad gwybodaeth a roddodd adroddiad cynnydd i'r cyngor ar amrywiol weithgareddau craffu.

## 21. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

### 1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A

Cyflwynwyd 10 'Cwestiwn Atodol' Rhan A.

Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Rhestrir cwestiwn atodol sy'n gofyn am ymateb ysgrifenedig isod:

<u>Cwestiwn 8</u>
Gofynnodd Wendy Fitzgerald am fanylion pellach am lefel debygol y symiau o gymorth ariannol y gellid eu darparu i grwpiau.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B

Cyflwynwyd 7 'Cwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' ar eu cyfer Rhan B.

## 22. Rhybudd o Gynnig - Cardiau Adnabod i Bleidleiswyr ar gyfer Etholiadau Cyffredinol.

Wedi'i gynnig gan y Cynghorydd C A Holley a'i eilio gan y Cynghorydd P M Black.

Nododd y Cynghorydd Holley ei fod yn hapus i dderbyn enwau gan y grŵp sy'n rheoli ar yr Hysbysiad o Gynnig pan fydd yn cael ei anfon i Downing Street.

Mae'r cyngor yn nodi cynigion yn araith y Frenhines i fynd i'r afael â gallu pobl i brotestio, i gyfyngu ar adolygiad barnwrol ac i fynnu cynhyrchu cardiau adnabod er mwyn pleidleisio mewn Etholiadau Cyffredinol.

Mae'r cyngor o'r farn bod y cynigion hyn yn tanseilio rhyddid cyfreithiol a chyfansoddiadol ac yn ceisio tawelu gwrthwynebiad i'r Llywodraeth hon yn y DU.

Mae'r cyngor o'r farn y bydd mynnu cardiau adnabod ar gyfer pleidleisio yn ychwanegu at gost gweinyddu etholiadau gan y cyngor hwn, yn cynyddu biwrocratiaeth ac yn rhoi ein clercod pleidleisio a'n swyddogion llywyddu mewn gorsafoedd pleidleisio mewn sefyllfaoedd cyfwynebol a allai fod yn anodd.

Mae'r cyngor yn nodi nad oes fawr o dystiolaeth, os o gwbl, o dwyll etholiadol i gyfiawnhau cyflwyno cardiau adnabod i bleidleisiwr ac mae'n credu y bydd cyflwyno'r mesur hwn yn cael effaith anghymesur ar leiafrifoedd ethnig, pobl hŷn a'r rhai ar incwm is, ac y bydd yn arwain at leihad yn nifer y bobl sy'n pleidleisio mewn etholiadau.

Mae'r cyngor wedi penderfynu ysgrifennu at Brif Weinidog y DU i fynegi ei bryder a'i wrthwynebiad i'r holl gynigion hyn.

Yn dilyn y ddadl ac yn unol â Rheol 30 Gweithdrefn y Cyngor, "Pleidlais", gofynnwyd am bleidlais gofnodedig. Cofnodwyd y bleidlais ar yr hysbysiad fel a ganlyn:

| **O blaid (52 o gynghorwyr)** | | |
|---|---|---|
| **Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| C Anderson | B Hopkins | P M Matthews |
| P M Black | D H Hopkins | P N May |
| J E Burtonshaw | O G James | H M Morris |
| M C Child | Y V Jardine | C L Philpott |
| J P Curtice | J W Jones | S Pritchard |
| N J Davies | M H Jones | A Pugh |
| A M Day | M Jones | J A Raynor |
| P Downing | P Jones | K M Roberts |
| C R Doyle | S M Jones | R V Smith |
| M Durke | E J King | D G Sullivan |
| V M Evans | E T Kirchner | G J Tanner |
| W Evans | H Lawson | D W W Thomas |
| R Francis-Davies | A S Lewis | L G Thomas |
| L S Gibbard | M B Lewis | M Thomas |
| F M Gordon | W G Lewis | G D Walker |
| K M Griffiths | C A Lloyd | L V Walton |
| T J Hennegan | P Lloyd | T M White |
| C A Holley | | |

| **Yn erbyn (8 cynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| S J Gallagher | L R Jones | W G Thomas |
| D W Helliwell | M A Langstone | L J Tyler-Lloyd |
| P R Hood-Williams | B R Rowlands | |
| | | |

| **Ymatal (0 Cynghorwr)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| - | - | - |

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.32 pm

**Cadeirydd**